**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MB/MD/1960/15

Holl Aelodau'r Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd

Caerdydd

CF99 1NA

27 Mai 2015

Annwyl aelod,

Rwy'n ymateb i gwestiwn Eluned Parrot AC i Jane Hutt AC yn ystod y Cwestiynau Busnes ar 12 Mai. Roedd yn gofyn am ddatganiad ar sut roedd mwy o ymwybyddiaeth o iechyd meddwl yn cael ei annog ymysg gweithwyr sector cyhoeddus.

Mae gwella iechyd meddwl a lles yn y gweithle yn un o ymrwymiadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu a 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl', ac mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyflogwyr i wneud hynny drwy'r rhaglen iechyd 'Cymru Iach ar Waith'.

Nod Cymru Iach ar Waith yw gwella iechyd yn y gweithle; atal pobl rhag mynd yn sâl oherwydd y gwaith; sicrhau bod y rhai sy'n mynd yn sâl oherwydd y gwaith yn cael eu cadw a'u hadfer; ac atal y cysylltiad rhwng afiechydon sy'n gysylltiedig â'r gwaith ac anweithgarwch economaidd. Rhoddir cefnogaeth i gyflogwyr i sylweddoli y gall y gweithle gael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles y gweithwyr, ac nad yw afiechyd y meddwl o anghenraid yn rhwystr i weithio'n effeithiol. At hynny, mae darparu cyflogaeth a chynnal pobl mewn gwaith yn ffordd bositif o gefnogi unigolion sy'n gwella o broblemau iechyd meddwl.

Mae'r gefnogaeth a roddir i gyflogwyr drwy Cymru Iach ar Waith yn cynnwys cymorth wyneb i wyneb, gwybodaeth ar y we a rhaglenni gwobrwyo. Mae gwella iechyd meddwl a rheoli cyflyrau iechyd meddwl yn ffocws allweddol o'r gefnogaeth hon.

Drwy'r rhaglenni gwobrwyo, mae'n rhaid i gyflogwyr roi tystiolaeth o bolisïau ac ymyriadau sy'n cefnogi gweithwyr i gynnal a gwella eu hiechyd a lles meddyliol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cyflwyno polisi iechyd meddwl a lles, arferion gweithio hyblyg, hyfforddiant, codi ymwybyddiaeth, ac ymgysylltu a chyfathrebu â'r staff. Hyd yn hyn, mae dros 2,418 o gyflogwyr wedi cymryd rhan yn Cymru Iach ar Waith, gan gyflogi dros 419,668 o bobl yng Nghymru (31% o'r boblogaeth oedran gweithio). Yn benodol, mae 30 o sefydliadau sector cyhoeddus wedi derbyn gwobrau drwy Cymru Iach ar Waith mewn cydnabyddiaeth o'u hymdrechion i wella iechyd a lles eu staff. Ymysg y cyflogwyr hyn mae sefydliadau'r GIG, Awdurdodau Lleol, Canolfannau Gwaith, Gwasanaethau'r Heddlu a Gwasanaethau Tân ac Achub.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford @wales.gsi.gov.uk
*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Er mwyn cefnogi dull Cymru Iach ar Waith o weithredu, rwyf wedi cyhoeddi bod cyllid gwerth £500k ar gael i ddarparu cam 2 o ymgyrch Amser i Newid Cymru tan fis Rhagfyr 2017. Mae Amser i Newid Cymru yn ceisio dileu'r stigma a'r gwahaniaethu sy'n wynebu pobl â phrofiad o broblemau iechyd meddwl yng Nghymru, ac mae cam 2 yn canolbwyntio ar y gweithleoedd. Hyd yn hyn mae 28 o sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector wedi llofnodi adduned sefydliadol, datganiad cyhoeddus o'u hymrwymiad i fynd i'r afael â stigma a gwahaniaethu o ran iechyd meddwl.

I gloi, yn gynharach eleni cyhoeddais y byddai, o fis Ebrill 2015, 12 o sefydliadau trydydd sector a mudiadau gwirfoddol yn derbyn £3m oddi wrth Lywodraeth Cymru i redeg prosiectau iechyd meddwl ar draws Cymru. Bydd y prosiectau'n darparu gwasanaethau i ategu'r rheini sydd eisoes yn cael eu darparu gan GIG Cymru a sefydliadau sector cyhoeddus eraill yng Nghymru. Mae nifer o'r prosiectau hyn yn canolbwyntio ar wella iechyd meddwl drwy'r gweithleoedd, er enghraifft mae'r Gymdeithas Alzheimer's yn gweithio gyda chyflogwyr i godi ymwybyddiaeth o ddementia ac mae prosiect Mind Cymru yn cynnwys haen benodol o wytnwch yn y gweithle.

Cofion cynnes

Mark Drakeford

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services